# CYFARFOD BLYNYDDOL CYDBWYLLGOR Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 19 Mehefin, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol:

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Cynghorydd M. Lewis.

Yn cynrychioli Cyngor Dinas a Sir Caerdydd – Cynghorwyr N. Mackie a M. Michael.

Yn cynrychioli Cyngor Bro Morgannwg - Cynghorwyr P. Drake a R. Sivagnanam.

(a) Cyhoeddiad -

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb oedd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio’n fyw yn ogystal â’i recordio ar y rhyngrwyd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i’w weld yn y dyfodol. ”

(b) Penodi Cadeirydd –

PENDERFYNWYD – Penodi'r Cynghorydd N. Mackie i swydd y Cadeirydd am y flwyddyn ddinesig gyfredol ac yn unol â'r Cytundeb Cydweithio.

(c) Penodi Is-Gadeirydd –

PENDERFYNWYD – Penodi'r Cynghorydd R. Sivagnanam i swydd y Is-Gadeirydd am y flwyddyn ddinesig gyfredol ac yn unol â'r Cytundeb Cydweithio.

(d) Ymddiheuriad Am Absenoldeb –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd H. Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr)

(e) Cofnodion –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth, 2024. fel cofnod cywir.

(f) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(g) Datganiad O Gyfrifon Heb Eu Harchwilio Gwasanaethau Rheoliadol A Rennir 2023/24 (PC/SA151) –

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno i'r Aelodau Ddatganiad Cyfrifon Anarchwiliedig y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2023-24. Roedd y Datganiad Cyfrifon Anarchwiliedig ar gyfer 2023/24 yn Atodiad 1.

Amlinellodd y Rheolwr Gweithredol - Cyfrifeg yr adroddiad i Aelodau'r Pwyllgor, gan esbonio bod y cyfrifon drafft wedi'u dosbarthu'n ddiweddar gyda'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Byddai sicrwydd ansawdd pellach yn cael ei wneud, a byddai datganiad cyfrifon terfynol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn cael ei rannu a'i gymeradwyo'n electronig gan yr Aelodau erbyn 28 Mehefin 2024, gan alluogi cymeradwyaeth derfynol erbyn y dyddiad cau sef 30 Mehefin 2024.

Esboniodd y Rheolwr Gweithredol na fyddai'r alldro fel yr amlinellwyd yn y drafft yn debygol o newid, er y gall yr elfen naratif ar gyfer y cyfrifon wneud hynny. Os felly, byddai'r cyfrifon diwygiedig yn cael eu rhannu gyda'r Aelodau cyn y dyddiad cau ar gyfer cymeradwyo. Mewn dull tebyg y llynedd o safbwynt Archwilio Cymru roedd y Cyngor yn disgwyl i brif gyfrifon yr Awdurdod Lleol gael eu blaenoriaethu a byddai cyfrifon y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir yn cael eu codi wedyn.

Cyfeiriwyd at uchafbwyntiau allweddol yr adroddiad, yn amrywio o ostyngiad mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, hyd at bwysau gwasanaeth penodol yr oedd angen mynd i'r afael â nhw / eu hamsugno, gostyngiad mewn atebolrwydd pensiwn, canlyniad yr adroddiad archwilio mewnol, yn ogystal ag adolygiad o wariant ar bryniannau prawf, adnewyddu'r polisi hawlio milltiroedd car a'r angen i gael sgwrs ehangach gyda'r awdurdodau partner ynghylch sut y byddai cyfraniadau 2024/25 yn cael eu dyrannu (naill ai ar sail poblogaeth neu gyllid allanol cyfun, fel y gwnaed ar gyfer methodoleg cyfraniadau 2023/24).

Paratowyd Datganiad Cyfrifon Anarchwiliedig y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) ar gyfer 2023/24 yn unol â'r arferion priodol fel y'u nodir yng Nghod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) / Pwyllgor Cynghori ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol (yr Alban) (y Cod). Roedd y Datganiad wedi'i gwblhau, a rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Pwyllgor am sefyllfa ariannol y GRhR cyn yr archwiliad terfynol mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2023/24. Roedd y Datganiad Cyfrifon yn destun archwiliad. Gofynnwyd i'r Pwyllgor awdurdodi'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid i lofnodi a rhyddhau Datganiad Cyfrifon y GRhR i Archwilio

Cymru.  Byddai canlyniad yr adolygiad gan Archwilio Cymru yn cael ei fwydo yn ôl i'r Pwyllgor yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad.

(2) Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn cael ei gymeradwyo'n electronig gan yr Aelodau erbyn 28 Mehefin 2024, gan alluogi cymeradwyaeth derfynol erbyn y dyddiad cau sef 30 Mehefin 2024.

(3) Awdurdodi'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid i lofnodi Datganiad Cyfrifon Anarchwiliedig 2023/24 i'w ryddhau i Archwilio Cymru.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Er mwyn cymeradwyo'r Datganiad Anarchwiliedig cyn y dyddiad cau.

(2a3) Er mwyn hwyluso cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

(h) Adroddiad Blynyddol Y Gwasanaethau Rheoliadol A Rennir 2023/24 (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan  Bennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) a swyddogion eraill a oedd yn ymwneud â'r GRhR, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Aelodau am berfformiad a sefyllfa ariannol y GRhR ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24.

Roedd y Cytundeb Cydweithio yn ei gwneud yn ofynnol i Bennaeth y GRhR a'r Pennaeth Cyllid gynhyrchu Adroddiad Blynyddol a fyddai'n cael ei anfon, ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor, at Benaethiaid Gwasanaeth Cyflogedig y cynghorau partner.

Amlinellodd y Rheolwr Gweithredol – Cyfrifeg ochr ariannol yr adroddiad.  Er enghraifft, ar 31 Mawrth 2024, roedd y GRhR wedi cyflawni diffyg alldro anarchwiliedig o £171k yn erbyn cyllideb £8.645m 2023/24.  Rhannwyd hyn gydag £18k yn erbyn y rhan Awdurdod-benodol o'r gyllideb a £53k yn gysylltiedig â rhan graidd y gyllideb.  Tanlinellodd nifer o themâu y sefyllfa ariannol hon, gan gynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn, gostwng cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy i £450k, pwysau dyfarniadau cyflog ac arbedion yr oedd gofyn i'r gwasanaeth eu gwneud yn 2023/24.  Roedd y dirwedd lle cododd y gorwariant hwn yn cynnwys ffactorau fel y dyfarniad cyflog a oedd yn fwy nag y cyllidebwyd ar ei gyfer ar gyfer 2023-24, costau'n ymwneud ag atafaelau lles anifeiliaid ac elfen o gostau contractwyr a oedd yn gysylltiedig â'r cynnydd cadarnhaol iawn a wnaed yn erbyn y rhaglen arolygu bwyd.

Gallai'r amrywiadau niweidiol ar ddiwedd y flwyddyn a ddangosir yn erbyn Caerdydd a'r Fro fod yn gysylltiedig â’r elfennau Awdurdod-benodol a Chraidd o gyllideb y GRhR a manylwyd arnynt ymhellach yn yr adroddiad. Roedd y sefyllfa hon yn amodol ar gwblhau archwiliad allanol o'r cyfrifon hyn gan Archwilio Cymru.

Yn dilyn y diweddariad ariannol, gwnaeth yr Is-gadeirydd sylwadau ar y pwysau o ran dyfarniadau cyflog a'r gwaith sylweddol a wnaed i ddal i fyny ar y rhaglen arolygu hylendid bwyd ar ôl COVID 19 o safbwynt Awdurdod Lleol. Esboniodd Pennaeth y GRhR ei bod wedi bod yn flwyddyn gadarnhaol iawn o ran arolygiadau hylendid bwyd a mynd i'r afael â'r ôl-groniadau ar ôl COVID-19, ond bod hyn wedi golygu gwariant ariannol ychwanegol trwy orfod llogi staff asiantaeth i helpu i gefnogi hyn. Roedd materion awdurdod-benodol ynghylch y dyfarniad cyflog a gorwariant arall yn cael eu trafod, a byddai unrhyw ddiweddariadau yn cael eu trosglwyddo yn ôl i Aelodau'r Pwyllgor.

Rhoddodd yr adroddiad sicrwydd bod y Gwasanaeth a Rennir wedi gwella perfformiad ar draws ei fetrigau traddodiadol yn ystod 2023-24 ar ôl yr aflonyddwch a achoswyd gan bandemig COVID-19. Fodd bynnag, roedd gwaith i’w wneud o hyd i glirio'r ôl-groniadau anochel mewn rhai meysydd o waith wedi'i raglennu. Cyflwynwyd meysydd allweddol i'r Pwyllgor sef Adnoddau Dynol, Perfformiad Gweithredol, Llygredd Sŵn ac Aer, y Gwasanaeth Bwyd, Lles Anifeiliaid a rhannau allweddol eraill o'r gwasanaeth, gan gynnwys rhai canlyniadau cadarnhaol ar hylendid bwyd, safonau masnach a busnes, gwneud y mwyaf o adnoddau yng ngoleuni'r pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus a thyfu dull y GRhR o recriwtio a chadw.

Yn dilyn yr adroddiad, roedd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Lewis a'r Pwyllgor ehangach eisiau mynegi eu diolch a'u gwerthfawrogiad i holl staff y GRhR am eu gwaith caled a'u hymrwymiad ar wahanol rannau o'r gwasanaeth, o hylendid bwyd i fynd i'r afael â gweithgareddau benthycwyr arian didrwydded a thu hwnt. Yn dilyn hyn, gofynnodd yr Is-gadeirydd am gwynion am sŵn a'r ffigur mil a mwy a ddyfynnwyd mewn perthynas â hyn. Cadarnhawyd bod hyn yn ymwneud â chwynion preswyl ynghylch busnesau lleol, cyfagos. O ran cwestiwn yr Is-gadeirydd ar nifer y cwynion a sut y penderfynwyd ar y cwynion, esboniwyd gan Reolwr Gweithredol y GRhR fod cwynion o'r fath yn rhan o'r galw adweithiol mwyaf am y GRhR, yn enwedig lle'r oedd eiddo preswyl yn agos at safleoedd masnachol a lleoliadau adloniant, fel yng nghanol trefi a dinasoedd. O ran cwynion cynyddol, nid oedd hyn wedi cynyddu'n sylweddol ers y llynedd, yn hytrach roedd hyn wedi bod yn duedd fwy cyffredinol dros y naw mlynedd diwethaf. Cyn belled ag y bo modd, byddai materion o'r fath yn cael eu trin a'u rhagatal drwy'r broses gynllunio, ond pe bai materion yn codi ar ôl i fusnes ddechrau gweithredu, byddai’r GRhR yn rhoi dull pwyllog ar waith o ran mynd i'r afael â'r cwynion ac unrhyw orfodaeth, h.y. a yw'r gŵyn sŵn yn pasio'r prawf neu’r trothwy sŵn statudol a’r prawf neu’r trothwy rhesymoldeb, fel a oedd y busnes dan sylw yn gwneud popeth o fewn ei allu i liniaru unrhyw sŵn yr oedd yn ei wneud, a oedd yn cydymffurfio â'i ganiatâd cynllunio, a oedd yn gweithredu'r holl amodau perthnasol i fynd i'r afael â / lliniaru sŵn, ac ati fel y'i rhoddwyd trwy'r prosesau cynllunio a thrwyddedu. Yn y pen draw, mater i swyddog perthnasol y GRhR fyddai ystyried yr holl ffactorau hynny wrth ddod i gasgliad ynghylch a fyddai'r Cyngor yn gweithredu. O'r miloedd hynny a mwy o gwynion, byddai'r mwyafrif yn

cael eu datrys trwy anfon llythyr i'r busnesau dan sylw yn amlinellu'r materion sŵn a adroddwyd, a fyddai wedyn yn ceisio lliniaru'r rhain. Byddai nifer llawer llai yn gofyn am waith pellach, gan gyflwyno hysbysiad neu, mewn ychydig iawn o achosion, erlyn yn ymwneud â thrwyddedu a gorfodi. Byddai mwy o fanylion yn cael eu rhoi i'r Is-gadeirydd a'r Pwyllgor maes o law.

Cododd y Cynghorydd Drake y digwyddiad diweddar yn Dow Corning yn y Barri a oedd wedi achosi pryderon ymhlith trigolion lleol a gofynnodd a oedd hyn bellach wedi cael sylw. Esboniwyd bod y GRhR yn ymwybodol o'r digwyddiad, ond yr asiantaeth arweiniol a'r rheoleiddiwr oedd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a oedd yn delio ag ef, ond roedd y GRhR yn dal mewn cysylltiad â Dow Corning a CNC ynghylch y digwyddiad hwn.

O ran ymdrechion y GRhR i fynd i'r afael â thybaco a fêps anghyfreithlon, dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cyhoedd yn falch iawn o wybod bod hyn yn cael ei ystyried ac yn cael sylw.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo'r adroddiad ac awdurdodi Prif Reolwr Cyngor Bro Morgannwg i anfon copi o'r adroddiad at Benaethiaid Gwasanaeth Cyflogedig y Cynghorau partner eraill.

(2) Nodi'r sefyllfa alldro anarchwiliedig 2023-24.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Er mwyn bodloni'r gofynion a nodir yng Nghymal 5.1 y Cytundeb Cydweithio.

(2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod

(i) <u>Cynllun Busnes Gwasanaethau Rheoliadol A Rennir 2024/25 (CAT)</u> –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR), a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor ar gyfer Cynllun Busnes y GRhR ar gyfer 2024-25. Nododd yr adroddiad y broses ar gyfer datblygu Cynllun Busnes drafft y GRhR ar gyfer 2024/25.

Roedd angen i'r Cydbwyllgor gadarnhau'r Cynllun drafft a oedd yn rhan o broses adrodd flynyddol y GRhR a nodwyd yn y Cytundeb Cydweithio.

Esboniwyd bod y Cynllun yn dal yr 'edau aur' neu'r 'llinell olwg' i flaenoriaethau corfforaethol y Cynghorau priodol.

Datblygwyd Cynllun Busnes drafft 2024/25 drwy broses cynllunio busnes y GRhR i adlewyrchu mewnbwn Swyddogion a Rheolwyr Tîm, gan gydnabod ar yr un pryd

ar lefel strategol, yr angen i'w waith ymateb i agendâu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol; yn ogystal ag i ddigwyddiadau byd-eang yn ôl yr angen. Cyflwynodd y Cynllun drafft gydnabyddiaeth realistig o'r heriau a'r cyfyngiadau adnoddau y mae'r GRhR yn darparu gwasanaethau hanfodol ynddynt. Roedd cefnogaeth eang hefyd ar gyfer parhau i ddefnyddio'r pum thema strategol bresennol ac roedd Cynllun Gweithredu blynyddol wedi'i gynhyrchu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo Cynllun Busnes y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2024/25.

(2) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i Gynllun Busnes 2024/25 pe bai'r angen yn codi.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Mae'r Cytundeb Cydweithio yn nodi (yng nghymal 14) y bydd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn llunio Cynllun Busnes drafft bob blwyddyn dan gyfarwyddyd y Bwrdd Rheoli.

(2) Diben y Cynllun Busnes, fel y nodir gan y Cytundeb Cydweithio, yw diweddaru'r wybodaeth yn y Cynllun Busnes blaenorol; a nodi'r cynigion ar gyfer gweithgareddau gwasanaeth, amcanion busnes ac ariannol, targedau effeithlonrwydd, cynllunio parhad busnes, rheoli risg, lefelau staffio dangosol a newidiadau, targedau perfformiad, costau ac incwm. Mae'r Cytundeb Cydweithio'n nodi hefyd y dylid cyflwyno Cynllun Busnes drafft i'r Cydbwyllgor i'w gymeradwyo, ac, ar ôl ei gymeradwyo, y dylid ei ddosbarthu i Bennaeth Gwasanaeth Cyflogedig pob awdurdod cyfranogol.

(3) Bydd awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i'r Cynllun Busnes yn galluogi gwneud mân newidiadau, yn ôl yr angen yn ystod y flwyddyn, heb fod angen dod â'r mater yn ôl i'r Cydbwyllgor. Yn ogystal â lleihau'r baich ar y Cydbwyllgor, mae'r dull hwn yn golygu y gellir gwneud mân newidiadau yn brydlon mewn ymateb i unrhyw faterion sy'n codi.

(j) <u>Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd A Diogelwch Y Gwasanaethau Rheoliadol A Rennir 2024/25 (CAT)</u> –

Ceisiodd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan Reolwr Gweithredol y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir (GRhR), gymeradwyaeth ar gyfer Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch ar gyfer y GRhR ar gyfer 2024/25. Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Cydbwyllgor am waith y tîm Iechyd a Diogelwch a gofynnodd i Gynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch y GRhR ar gyfer 2024/25 gael ei gymeradwyo.

Roedd Adran 18 o'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol lunio Cynllun Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch yn nodi'r trefniadau a oedd ar waith i gyflawni'r dyletswyddau hyn.  Lluniwyd y Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch hwn mewn ymateb i'r gofyniad hwnnw ac fe'i cynlluniwyd i hysbysu trigolion, cymuned fusnes Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a'r Fro am y trefniadau a oedd gan y Cynghorau ar waith i reoleiddio iechyd a diogelwch.

Nododd yr adroddiad hwn, a gynhyrchwyd yn flynyddol, sut y gwnaeth y GRhR gyflawni ei ddyletswyddau iechyd a diogelwch.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor

The Committee, after considering the report, subsequently

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch 2024/25.

(2) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir i wneud unrhyw ddiwygiadau gweinyddol i Gynllun Gorfodi Iechyd a Diogelwch 2024/25 yn ôl yr angen.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1a2) Er mwyn sicrhau bod gan y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir drefniadau cadarn ar waith i gyflawni ei rwymedigaethau fel awdurdod gorfodi dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a chydymffurfio â chanllawiau statudol.

(k) <u>Penodi Swyddogion Priodol (CAT)</u> -

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno, ar gyfer penodi / awdurdodi, bersonau cymwys addas yn rhinwedd eu cymhwyster, eu hyfforddiant a'u cydsyniad, i weithredu fel Swyddogion Priodol / Swyddogion Meddygol Porthladdoedd ar ran yr Awdurdod Lleol dan ddarpariaeth Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, a rheoliadau a wnaed dan hynny.  Cyflwynwyd hyn i'r Pwyllgor gan Reolwr Gweithredol y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir.

Mabwysiadodd deddfwriaeth Diogelu Iechyd wedi'i diweddaru ddull "pob perygl" a oedd yn cwmpasu haint a halogiad o unrhyw fath.  Roedd hyn yn gyson â Rheoliadau Iechyd Rhyngwladol 2005 a oedd â'r nod o hwyluso ymatebion rhyngwladol i risgiau iechyd cyhoeddus acíwt a allai groesi ffiniau.

Diffiniwyd 'Swyddog Priodol' yn Adran 74 o Ddeddf 1984 (fel y'i diwygiwyd).

Ar ôl ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor

PENDERFYNWYD – Penodi’r unigolion canlynol yn Swyddogion Priodol ac yn Swyddogion Meddygol Porthladd at ddibenion y ddeddfwriaeth a nodir yn yr adroddiad.

- Siobhan Adams – Ymgynghorydd Diogelu Iechyd
- James Adamson – Ymgynghorydd Diogelu Iechyd
- Richard Firth – Ymgynghorydd Diogelu Iechyd
- Beverly Griggs – Ymgynghorydd Diogelu Iechyd
- Susan Mably - Ymgynghorydd Diogelu Iechyd
- Elizabeth Marchant - Ymgynghorydd Diogelu Iechyd
- Keith Neal - Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy
- Giri Shankar – Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy
- Wendi Shepherd – Ymgynghorydd Diogelu Iechyd
- Rhianwen Stiff - Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy
- Christopher Johnson – Epidemiolegydd Ymgynghorol
- David Ishola - Epidemiolegydd Ymgynghorol
- Emily Steggall – Epidemiolegydd Ymgynghorol
- Daniel Thomas – Epidemiolegydd Ymgynghorol
- Christopher Williams – Epidemiolegydd Ymgynghorol

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Mae'r rhestr gyfredol o Swyddogion Priodol/Swyddogion Meddygol Porthladd yn hen ac mae angen ei diwygio, gyda'r diwygiadau a nodir uchod.